# Amcan Lles 3:
# Cefnogi pobl allan o dlodi

## Asesiad Caerdydd o Les Lleol

**Ds:** Cynhaliwyd yr asesiad hwn drwy ddefnyddio'r data mwyaf diweddar sydd ar gael. Mewn llawer o achosion ni fydd hyn yn cipio effaith lawn pandemig byd-eang Covid-19. Cafodd gwaith i gasglu rhai setiau data ei atal yn sgil y pandemig hefyd.

# Dangosyddion


1. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019: Maes Incwm
2. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019: Maes Addysg
3. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru: Maes Iechyd
4. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru: Maes Corfforol
5. Canran yr aelwydydd mewn tlodi (hy, amddifadedd materol)
6. Canran y plant mewn teuluoedd ag incwm cymharol isel
7. Canran yr aelwydydd heb waith
8. Canran y plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith
9. Disgyblion Cyfnod Allweddol 2 a Gyrhaeddodd y Lefel Ddisgwyliedig (L4+) yn y Dangosydd Pynciau Craidd a PYaDd vs Dim PYaDd
10. Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 a Gyrhaeddodd y Trothwy Lefel 2 Disgwyliedig, gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg a PYaDd vs Dim PYaDd
11. Gwaharddiadau parhaol o ysgolion a gynhelir, cyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion
12. Dysgwyr sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 y gwyddys nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)
13. Dysgwyr sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 13 y gwyddys nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)
14. Nifer sy'n hawlio budd-daliadau (18-24 oed)
15. Nifer sy'n hawlio budd-daliadau - Wardiau (16-64 oed)
16. Fforddiadwyedd Tai: Cymhareb pris tŷ i'r canolrif cyflog blynyddol gros (ONS)
17. Tlodi Tanwydd
18. Tlodi bwyd
19. Cysgwyr allan fesul 10,000 o bobl
20. Cyfradd yr aelwydydd lle llwyddwyd i atal digartrefedd am 6 mis o leiaf fesul 10,000 o aelwydydd
21. Cyfradd yr aelwydydd y derbyniwyd eu bod yn gymwys, yn ddigartref yn anfwriadol, ac ag angen blaenoriaethol fesul 10,000 o aelwydydd
22. Canran y cleientiaid sy'n cyrchu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a nododd welliant yn eu hansawdd bywyd
23. Canran y bobl sy'n fodlon â’u gallu i gyrraedd/ddefnyddio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen
24. Canran sy'n cytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (Dangosydd Cenedlaethol 23)
25. Etholiadau
26. Lles Personol - Boddhad â Bywyd, Teimlo Bod Bywyd yn Werth Chweil, Hapusrwydd, Pryder
27. Canran y Bobl sy'n Weddol Fodlon neu'n Fodlon Iawn â'u Swyddi

# 1. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019: Maes Incwm


**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae bron i un o bob pump (19.2%) neu 41 o'r 214 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) yng Nghaerdydd ymhlith y 10% mwyaf amddifadus yng Nghymru, y 3edd gyfran uchaf o blith holl Awdurdodau Lleol Cymru.
- Mae'r rhan fwyaf o'r ACEHIau hyn i'w cael yn arc ddeheuol y ddinas
- Mae 35.6% o ACEHIau yn yr arc ddeuehol ymhlith 10% o ardaloedd mwyaf amddifadus Cymru ac eithrio Casnewydd (20.0%) sydd â'r gyfran fwyaf o blith ALlau Cymru.

**Canran yr ACEHIau yn y 10% o Ardaloedd Mwyaf Difreintiedig yng Nghymru (Safle 1-191), Maes Incwm MALlC 2019**




**2019 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru Caerdydd – Maes Incwm**





DS. Dangosir nifer yr ACEHIau ym mhob ardal mewn cromfachau


*Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Llywodraeth Cymru*

# 2. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019: Maes Addysg

**Pwyntiau Allweddol:**
- Deilliannau addysg - mae 14% neu 30 allan o 214 o ACEHIau yng Nghaerdydd ymhlith y 10% mwyaf amddifadus yng Nghymru, y 5ed cyfran fwyaf o blith holl Awdurdodau Lleol Cymru
- Mae'r rhan fwyaf o'r ACEHIau hyn i'w cael yn arc ddeheuol y ddinas
- Mae 27.8% o ACEHIau yn arc ddeheuol ymhlith 10% o ardaloedd mwyaf amddifadus Cymru, sy'n uwch na chanran Casnewydd (21.1%) sydd â'r gyfran fwyaf o blith ALlau Cymru.




**2019 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru: Caerdydd – Maes Addysg**




DS. Dangosir nifer yr ACEHIau ym mhob ardal mewn cromfachau


*Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Llywodraeth Cymru*

# 3. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru - Maes Iechyd


**Pwyntiau Allweddol:**

- O ran Meysydd Iechyd MALlC, ceir anghydraddoldebau clir ar draws dinas Caerdydd. Mae Caerdydd yn uwch na chyfartaledd Cymru o ran cyfran yr ACEHIau sydd ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru, ond hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru yn nhermau cyfran yr ACEHIau sydd ymhlith y 50% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru
- Pe bai Arc Ddeheuol Caerdydd yn cael ei ystyried fel ardal Awdurdod Lleol yn ei hawl ei hun, byddai'n cynnwys y gyfran fwyaf o ACEHIau yn y 10% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru.


**Canran yr ACEHIau yn y 10% o Ardaloedd Mwyaf Difreintiedig yng Nghymru (Safle 1-191), Maes Iechyd MALlC 2019**




**Canran yr ACEHIau yn y 50% o Ardaloedd Lleiaf Difreintiedig yng Nghymru (Safle 956-1,909), Maes Iechyd MALlC 2019**




**2019 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru Caerdydd – Maes Iechyd**




DS. Dangosir nifer yr ACEHIau ym mhob ardal mewn cromfachau


*Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Llywodraeth Cymru*

# 4. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019: Maes Corfforol


**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae'r maes hwn yn cynnwys tri is-faes: Ansawdd yr aer, Perygl Llifogydd a Mannau Gwyrdd
- O bell ffordd, Caerdydd a Chasnewydd sydd â'r mwyaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd ymhlith 10% o ardaloedd mwyaf amddifadus Cymru.
- 43% o ACEHIau Caerdydd sydd ymhlith 10% o ardaloedd mwyaf amddifadus Cymru.

**Canran yr ACEHIau yn y 10% o Ardaloedd Mwyaf Difreintiedig yng Nghymru (Safle 1-191), Maes Amgylchedd Ffisegol MALlC 2019**




**2019 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru: Maes Corfforol**




DS. Dangosir nifer yr ACEHIau ym mhob ardal mewn cromfachau


*Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Llywodraeth Cymru*

# 5. Canran yr aelwydydd mewn tlodi (hy, amddifadedd materol)

**Pwyntiau Allweddol:**


- Mae lefelau amddifadedd materol yng Nghaerdydd wedi gostwng 16% yn 2016-17 i 13% yn 2019-20, fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru.
- Mae amddifadedd o ran incwm i'w gael yn bennaf yn Arc Ddeheuol y ddinas

**Canran yr Aelwydydd mewn Amddifadedd Materol, 2019-20**




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru*

**2019 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru Caerdydd – Maes Incwm**





DS. Dangosir nifer yr ACEHIau ym mhob ardal mewn cromfachau


*Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Llywodraeth Cymru*

# 6. Canran y plant mewn teuluoedd ag incwm cymharol isel

**Pwyntiau Allweddol:**

- Caerdydd yw'r drydedd ganran isaf o blith Dinasoedd Craidd y DU a Chaeredin, ac mae'r awdurdod yn y safle canol o blith Awdurdodau Lleol Cymru.
- Fodd bynnag mae un o bob pump o blant dan 16 yn byw mewn teuluoedd ag incwm cymharol isel
- Ers 2016/17, mae'r ganran wedi cynyddu, gyda chynnydd amlwg yn 2019/20 (o 18.7% i 20.7%)









*Ffynhonnell: DWP/CaThEM*

# 7. Canran yr aelwydydd heb waith

**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae gan Gaerdydd y 3edd ganran isaf o aelwydydd heb waith o blith holl Awdurdodau Lleol Cymru a'r 4edd isaf o blith Dinasoedd Craidd y DU a Chaeredin
- Er2016, mae'r ganran wedi gostwng yn is na chyfartaledd Cymru o 17.7% i 12.9% yn 2020








*Ffynhonnell: ONS*

# 8. Canran y plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith

**Pwyntiau Allweddol:**

- Er 2016, bu tuedd ar i lawr yng nghanran y plant sy'n byw mewn cartrefi heb waith. Yn 2020, Caerdydd oedd â'r ganran isaf ond un o blith Awdurdodau Lleol Cymru, ond gan fod maint y sampl yn fach roedd y ffigurau'n llai dibynadwy na ffigurau 2019, pan oedd ganddo'r 8fed ganran isaf.






*Ffynhonnell: SYG*


# 9. Disgyblion Cyfnod Allweddol 2 a Gyrhaeddodd y Lefel Ddisgwyliedig (L4+) yn y Dangosydd Pynciau Craidd a PYaDd vs Dim PYaDd


**Pwyntiau Allweddol:**

- Dangosydd heb ei gyhoeddi mwyach.
- Yn 2017, cyrhaeddodd 89.4% o ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 yr L4+ ddisgwyliedig, gan osod Caerdydd yn y 14[eg] safle o blith 22 o Awdurdodau Lleol Cymru.
- Yr oedd gwahaniaeth o 13.0 pwynt canran mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim (PYaDd) a rhai nad ydynt yn derbyn PYaDd, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 15.1.








*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*


# 10. Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 yn Cyrraedd y Trothwy Lefel 2 Disgwyliedig, gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg a PYaDd vs Dim PYaDd


**Pwyntiau Allweddol:**

- Nid oes modd cymharu data â blynyddoedd blaenorol mwyach oherwydd newidiadau diffiniadol.
- Yn 2018/19, cyrhaeddodd 58.2% Drothwy Lefel 2, gan osod Caerdydd yn y chwartel uchaf.
- Yr oedd bwlch o 32.0 pwynt canran rhwng disgyblion sy'n derbyn PYaDd a rhai nad ydynt yn derbyn PYaDd, sydd ychydig yn is na ffigur Cymru o 32.2.




DS. Nid yw ffigurau awdurdod lleol wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer 2019/20 a 2020/21








*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*


# 11. Gwaharddiadau parhaol o ysgolion a gynhelir, cyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion

**Pwyntiau Allweddol:**

- O ganlyniad i'r pandemig roedd yr ysgolion ar gau rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mehefin 2020. Roedd hyn yn golygu na chafwyd bron unrhyw waharddiadau yn ystod y cyfnod hwnnw, ac mae hynny wedi effeithio ar gyfanswm y gwaharddiadau**.**
- Yn 2019/20, aeth cyfradd Caerdydd yn uwch na chyfartaledd Cymru, ar ôl cyfateb i'r ffigur hwnnw 2018/19 a bod yn is na hynny yn 2017/18.




DS. Mae'r ffigurau ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Merthyr Tudful yn ddadlennol





DS. Mae Ffigurau Caerdydd ar gyfer 2014/15, 2015/16 a 2016/17 yn ddadlennol

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

# 12. Rhai sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 y gwyddys nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)


**Pwyntiau Allweddol:**
- Nid oes modd cymharu data â blynyddoedd blaenorol mwyach.
- Mae canran y rhai sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 y gwyddys eu bod yn NEET yng Nghaerdydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru.
- Ym mis Hydref 2021, mae Cyfradd y Nifer sy'n Hawlio Budd-daliadau (18-24 oed) yn y cymunedau mwyaf amddifadus dros bum gwaith yn uwch nag yn y cymunedau lleiaf amddifadus.

**Blwyddyn 11: Canran NEET, 2020**




*Ffynhonnell: Gyrfa Cymru*


**Canran y Rhai sy'n Hawlio Budd-dal Diweithdra (18-24 oed) yng Nghaerdydd yn ôl Pumed Amddifadedd, Hyd 2021**




*Ffynhonnell: Nifer sy'n Hawlio Budd-daliadau/Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Amcangyfrifon Poblogaeth Llywodraeth Cymru/Canol 2020*

# 13. Dysgwyr sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 13 y gwyddys nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)

**Pwyntiau Allweddol:**
- Nid oes modd cymharu data 2020 â blynyddoedd blaenorol mwyach.
- Mae canran y rhai sy'n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 13 y gwyddys eu bod yn NEET yn is na chyfartaledd Cymru, a'r ganran honno yw'r gyd-3edd  ganran isaf o blith Awdurdodau Lleol Cymru.






*Ffynhonnell: Gyrfa Cymru*

# 14. Nifer sy'n hawlio budd-daliadau (18-24 oed)

**Pwyntiau Allweddol:**

- Cyfradd Caerdydd yw'r 4edd isaf o blith Dinasoedd Craidd y DU a'r 3edd isaf o blith Awdurdodau Lleol Cymru.
- Rhwng mis Mawrth 2020 a mis Rhagfyr 2020, gwnaeth y gyfradd fwy na dyblu, a gwelwyd cynnydd tebyg yn ffigurau cyfartalog Cymru a'r DU. Fodd bynnag, erbyn Hydref 2021 roedd y gyfradd wedi gostwng yn raddol i 3.9%, o gymharu â'r gyfradd o 2.8% cyn y pandemig. Mae cyfraddau Cymru a'r DU hefyd wedi gostwng, ond nid yw'r newid hwnnw wedi digwydd mor gyflym.
- Mae'r gyfradd yn y cymunedau mwyaf amddifadus dros bum gwaith yn uwch na'r gyfradd yn y cymunedau lleiaf amddifadus.








*Ffynhonnell: Nifer sy'n Hawlio Budd-daliadau/Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Amcangyfrifon Poblogaeth Llywodraeth Cymru/Canol 2020*

# 15. Nifer sy'n hawlio budd-daliadau - Wardiau (16-64 oed)

**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae cyfradd Caerdydd fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru
- Mae'r gyfradd yn amrywio rhwng 1.3% yn Radur, un o Wardiau mwyaf cefnog y ddinas, a 9.2% yn Adamsdown, un o'r wardiau mwyaf amddifadus.






*Ffynhonnell: Nifer sy'n hawlio budd-daliadau*

# 16. Fforddiadwyedd Tai: Cymhareb pris tŷ i'r canolrif cyflog blynyddol gros (ONS)

**Pwyntiau Allweddol:**

- Ar wahân i Fryste, Caerdydd yw'r ddinas lleiaf fforddiadwy o ran tai o blith Dinasoedd Craidd y DU.
- Ar gyfartaledd, mae costau eiddo dros saith a hanner o weithiau'n fwy na'r canolrif enillion blynyddol gros.
- Ar ôl bod y chweched awdurdod lleol lleiaf fforddiadwy yng Nghymru yn 2019, mae Caerdydd bellach yn ail, ychydig y tu ôl i Fro Morgannwg ac yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru.





*Ffynhonnell: ONS*

# 17. Tlodi tanwydd

**Pwyntiau Allweddol:**
- y data diweddaraf sydd ar gael
- Mae lefelau tlodi tanwydd yng Nghaerdydd gyda'r isaf o blith holl ALlau Cymru.
- Mae 9% o aelwydydd yng Nghaerdydd mewn tlodi tanwydd o gymharu â 23% yng Ngwynedd






*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*


# 18. Tlodi Bwyd


**Pwyntiau Allweddol:**


- Mae Caerdydd ar safle canolig-isel o ran aelwydydd sy'n profi tlodi bwyd.
- Amcangyfrifir bod 1 o bob 10 cartref yn poeni am sicrwydd bwyd ac wedi methu prydau/bwyta prydau llai neu ofyn am gymorth allanol










*Ffynhonnell: Sefydliad Bwyd Cynaliadwy Prifysgol Sheffield/Y Sefydliad Bwyd*

# 19. Cysgwyr allan fesul 10,000 o bobl

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2019-20 (a gynrychiolir gan arolwg a gynhaliwyd dros gyfnod o bythefnos ym mis Hydref 2019), Caerdydd oedd a'r 3edd gyfradd amcangyfrifedig uchaf o blith ALlau Cymru, ar ôl Casnewydd a Cheredigion.
- Rhwng 2018-19 a 2019-20, roedd y nifer amcangyfrifedig o gysgwyr allan yng Nghaerdydd heb newid ryw lawer, gan ostwng rhyw fymryn o 100 i 92.









DS. Nid ellir cymharu data 2017-18 yn uniongyrchol â data 2016-17, ac nid ellir ychwaith gymharu data 2016-17 yn uniongyrchol â data 2015-16 oherwydd gwahaniaethau amseru

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

# 20. Cyfradd yr aelwydydd lle llwyddwyd i atal digartrefedd am 6 mis o leiaf fesul 10,000 o aelwydydd

**Pwyntiau Allweddol:**
- Caerdydd yw'r perfformiwr gorau o blith Awdurdodau Lleol Cymru
- Cafwyd gwelliant cyson i'r gyfradd rhwng 2015-16 a 2019-20 gan ddringo'n llawer uwch na chyfartaledd Cymru ac Abertawe yn yr 2il safle









Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

# 21. Cyfradd yr aelwydydd y derbyniwyd eu bod yn gymwys, yn ddigartref yn anfwriadol, ac ag angen blaenoriaethol fesul 10,000 o aelwydydd

**Pwyntiau Allweddol:**
- Caerdydd sydd â'r gyfradd uchaf ond un o blith holl Awdurdodau Lleol Cymru.
- Arhosodd y gyfradd yn uwch na chyfartaledd Cymru rhwng 2015-16 a 2019-20









*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

# 22. Canran y cleientiaid sy'n cyrchu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a nododd welliant yn eu hansawdd bywyd

**Pwyntiau Allweddol:**
- Mae Caerdydd yn y safle canol o blith Awdurdodau Lleol Cymru
- Ers 2016/17, bucynnydd bacho 81% i 83% yn 2020/21, er gwaethaf gostyngiad cychwynnol









*Ffynhonnell: Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau*

# 23. Canran y bobl sy'n fodlon â'u allu i gyrraedd/ddefnyddio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen

**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae Caerdydd ymhlith y traean uchaf o Awdurdodau Lleol Cymru â 90% o ymatebwyr yn fodlon â'r mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau yn arolwg Llywodraeth Cymru yn 2020/21.








*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru*

# 24. Canran sy'n cytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol


**Pwyntiau Allweddol:**
- Er ei fod yn y safle canol, Caerdydd sydd yn perfformio orau o blith yr awdurdodau trefol.
- Mae'r ganran wedi gostwng o 28% yn 2016/17 i 25% yn arolwg 2020/21

**% y bobl sy'n cytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol 2020-21**




DS. Mae data ar gyfer Blaenau Gwent, Ceredigion, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen, Wrecsam yn ddadlennol neu heb fod yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi

**% y bobl sy'n cytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, 2012-13 i 2020-21**






*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru*

# 25. Etholiadau

**Pwyntiau Allweddol:**

- Roedd y nifer a bleidleisiodd yn Etholiadau Lleol Cymru 2017, sef 42.7%, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru
- Roedd y nifer a bleidleisiodd fesul Ward yng Nghaerdydd yn amrywio rhwng 26.6% yn Trowbridge a 61.9% yn Rhiwbeina
- Yn Etholiad Cyffredinol 2019, aeth 63.8% i fwrw eu pleidlais yng Nghaerdydd, sydd fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru.
- Yn Etholiad y Senedd yn 2021, aeth 49.5% i fwrw eu pleidlais yng Nghaerdydd, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru.









*Ffynhonnell: Y Comisiwn Etholiadol /Senedd*


# 26a. Lles Personol: Boddhad â bywyd, Hapusrwydd, Teimlo Bod Bywyd yn Werth Chweil, Pryder


**Pwyntiau Allweddol:**

- Y sgôr uchaf ond un o blith y Dinasoedd Craidd o ran Boddhad â Bywyd, ond yn is na sgôr cyfartalog Cymru a'r DU.
- Yn y safle canol o ran y sgôr 'gwerth chweil', ond yn is na sgôr cyfartalog Cymru a'r DU.
- Y Ddinas Graidd uchaf ond un ar gyfer y sgôr hapusrwydd, ond yn is na sgôr cyfartalog Cymru a'r DU.
- Y lefelau 'pryder' isaf, gan gyd-fynd â ffigur y DU a chymharu'n ffafriol â Chymru.









*Ffynhonnell: ONS*


# 26b. Lles Personol: Boddhad â Bywyd, Hapusrwydd, Teimlo Bod Bywyd yn Werth Chweil, Pryder (parhad)


**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae sgôr cyfartalog Caerdydd ar gyfer Boddhad â Bywyd, Teimlo'n Werth Chweil a Hapusrwydd wedi bod yn uwch na 7/10 ers 2011/12. Fodd bynnag, yn 2020/21 gwelwyd gostyngiad graddol ar draws pob un o'r dangosyddion lles personol hyn, fwy na thebygo ganlyniad i'r pandemig.
- Yn gyffredinol mae'r lefelau wedi bod yn is na chyfartaleddau Cymru a'r DU ar gyfer Boddhad â Bywyd, Teimlo'n Werth Chweil a Hapusrwydd.
- Dros y 5 mlynedd diwethaf, gwelwyd tuedd ar i fyny mewn lefelau pryder ac, ar wahân i 2020/21, mae'r lefelau hynny wedi bod yn uwch na chyfartaleddau Cymru a'r DU.













*Ffynhonnell: ONS*


# 26c. Lles Personol: Boddhad â Bywyd, Hapusrwydd, Teimlo Bod Bywyd yn Werth Chweil, Pryder (parhad)

**Pwyntiau Allweddol:**
- Ar draws yr ystod o fesurau, mae lles personol yn dirywio wrth i amddifadedd gynyddu.








*Ffynhonnell: Holi Caerdydd Arolwg, Cyngor Caerdydd*

# 27. Canran y Bobl sy'n Weddol Fodlon neu'n Fodlon Iawn â'u Swyddi

**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae dros bedwar o bob pump o bobl yng Nghaerdydd weddol fodlon neu'n fodlon iawn â'u swyddi, sef yr un gyfran ar gyfer Cymru gyfan.




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru*